PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

E-lawlyfr 1
SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL
Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

Adnodd 8

# *Mudiadau Cymdeithasol 2: Dulliau Dylanwadu*

## Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

International Politics | Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Nodir awdur(on) penodol pob adnodd ar waelod y dudalen hon. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru wedi bod yn bartner yn y prosiect o'r dechrau.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid y bwriad oedd cynhyrchu gwerslyfr swmpus, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon. O'r herwydd, mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Mae E-lawlyfr 1 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol wedi'u teilwra i Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Dylid nodi nad yw'r 8 adnodd yn cwmpasu'r holl feysydd yn y fanyleb. Yn hytrach, penderfynwyd ar gynnwys yr 8 adnodd drwy asesu meysydd lle roedd galw am ddeunydd astudio Cymraeg, gan gynnwys ymgynghori ag athrawon.

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 1 isod, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb Uned 2: 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth' sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd unigol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| Adnodd 1: Cyfranogiad yng Nghymru | 2.2.1: Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad. |
| Adnodd 2: Systemau Etholiadol yn y DU | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 3: Defnyddio refferenda yng Nghymru | 2.2.2: Systemau etholiadol yn y DU. |
| Adnodd 4: Ymddygiad pleidleisio yn y cyd-destun Cymreig | 2.2.3: Ymddygiad pleidleisio. |
| Adnodd 5: Carfanau pwyso 1: Nodweddion a mathau | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| Adnodd 6: Carfanau pwyso 2: Dulliau Dylanwadu | 2.3.2: Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth |
| Adnodd 7: Mudiadau cymdeithasol 1: Nodweddion a mathau | 2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. |
| **Adnodd 8: Mudiadau cymdeithasol 2: Dulliau Dylanwadu** | **2.3.3: Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth**<br>**– Dulliau ac adnoddau gan gynnwys defnyddio technolegau newydd**<br>**– Natur fyd-eang rhai mudiadau cymdeithasol.**<br>**– Y mudiad i fenywod fel enghraifft o fudiadau cymdeithasol**<br>**– Dadleuon ynghylch effeithiolrwydd mudiadau cymdeithasol** |

## Awduron yr adnodd:

Dr. Elin Royles, Prifysgol Aberystwyth

Dr. John Glyn

Golygwyd E-lawlyfr 1 gan Dr. Elin Royles

# GWYBODAETH GRAIDD

## Pa fath o ddulliau a ddefnyddir gan fudiadau cymdeithasol?

Mae ystod o ffyrdd arferol ellir eu defnyddio i brotestio. Mewn cymdeithasau Gorllewinol, mae’r rhan fwyaf o fudiadau cymdeithasol yn dewis o ystod eithaf cyfyng o dactegau, yn enwedig: deisebau, gwrthdystio, streicio, boicotio a meddiannu (sit-ins). Mae’r rhain yn dangos bod y rhan fwyaf o ddulliau a ddefnyddir gan fudiadau cymdeithasol yn heddychlon, yn fodd torfol o fynegi barn. Er enghraifft, gorymdeithio a chario baneri.

Weithiau bydd mudiadau yn hynod ddyfeisgar wrth ddefnyddio’r dulliau hyn er mwyn cael sylw ehangach. Mewn rhan amgylchiadau, fel rhan o geisio ennyn sylw’r wasg i’w hachos, mae mudiadau’n gofyn am gefnogaeth gyhoeddus pobl enwog sy’n cefnogi eu hamcanion. Drwy alw cynhadledd i’r wasg sy’n cynnwys actor, cerddor neu berson enwog o fyd chwaraeon, cynyddir y cyfle i’r mudiad gael cyhoeddusrwydd i’w ymgyrch.

Mae mudiadau hefyd yn defnyddio dulliau eraill mwy anghonfensiynol ac uniongyrchol, gan gynnwys anufudd-dod sifil a thor-cyfraith. Mae mathau o anufudd-dod sifil yn cynnwys atal prosiect adeiladu mawr fel ffordd neu llain mewn maes awyr drwy feddiannu’r tir ble mae’r datblygiad. Mewn rhai achosion, mae cyfres o brotestiadau yn erbyn corfforaethau rhyngwladol mawr wedi arwain at ddifrod ac ymosodiadau ar eiddo.

Gall dulliau mudiadau cymdeithasol ymestyn i’r eithaf o ddefnyddio strategaethau treisgar fel rhyfela a therfysgaeth. Gall hyn fod yn ymateb gwleidyddol i drais gan y wladwriaeth neu dros diriogaeth. Er enghraifft, roedd agweddau treisgar i’r ymrafael am hawliau sifil yn yr UDA yn yr 1960au, yn arbennig terfysgoedd gan Americanwyr Affricanaidd mewn dros 100 o ddinasoedd yn 1968 yn dilyn llofruddio Martin Luther King. Defnyddiwyd trais hefyd yn achos y mudiad gwrth-apartheid yn Ne Affrica.

Yn ymarferol, mae’n rhaid i brotestwyr addasu eu dulliau i’r adnoddau, y cyfleon a’r rhwystrau sy’n eu hwynebu. Gwnânt benderfyniadau pwysig ynghylch pa dactegau fydd fwyaf priodol i ddylanwadu ar dargedau penodol, e.e. y llywodraeth neu’r gymdeithas a’r ymateb rhagwelir i’w defnydd.

**Gweithredu uniongyrchol**: term eang sy’n cyfeirio at y defnydd o wrthdystiadau, streiciau, boicotiau a ffurfiau eraill o brotest yn hytrach na thrafodaethau neu bleidleisio er mwyn gwireddu amcanion. Gall y gweithgareddau fod yn gyfreithlon (e.e. gwrthdystio wedi ei gytuno gyda’r heddlu o flaen llaw), neu yn anghyfreithlon (e.e. torri i mewn i labordy a rhyddhau’r anifeiliaid). Mae’n bosib taw’r wladwriaeth neu sefydliadau eraill yw’r targed ac mae’n bosib y bydd y gweithgareddau’n dreisgar neu’n ddi-drais.

**Anufudd-dod sifil**: gweithred ddi-drais, wleidyddol sy’n groes i’r gyfraith ac yn digwydd yn gyhoeddus gyda’r bwriad o greu newid yn y gyfraith neu ym mholisïau’r llywodraeth.

## Adnoddau

Er mwyn parhau dros gyfnod o amser, mae angen adnoddau ar fudiad cymdeithasol: arian, pobl a'r gallu i ddatblygu capasiti proffesiynol.

Heddiw, mae angen technoleg ar drefnwyr, gwasanaethau sy'n galluogi codi arian e.e. arlein, lobïwyr cyflogedig, ffotocopïwyr, y gallu i rentu swyddfeydd ac i dalu staff. Gall sicrhau hyn gymryd tipyn o amser. Ar ben hyn, mae angen dealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio'r adnoddau hyn. Mae ymgyrchwyr hefyd yn ddyfal yn ceisio sicrhau bod mwy o adnoddau gan y mudiad ac yn adnabod ffyrdd amrywiol o brotestio sydd o fewn eu gallu.

Yn ymarferol, ceir amrywiaeth helaeth rhwng yr adnoddau sydd gan fudiadau gwahanol o ran y tair ffactor uchod: arian, pobl a'r gallu i ddatblygu capasiti proffesiynol. Effeithia hyn felly ar y math o ddulliau a'r tactegau a ddefnyddir gan fudiadau, sy'n effeithio ar eu gallu i ddylanwadu.

## Pa mor bwysig yw technoleg i fudiadau cymdeithasol?

Mae gofyn i fudiadau ledaenu eu neges ymysg nifer fawr o gefnogwyr posibl er mwyn cynyddu eu dylanwad. Yn draddodiadol, y cyfryngau print a darlledu confensiynol fu'r prif fodd i fudiadau wneud hyn. Yn fwy diweddar, maen nhw'n gwneud defnydd cynyddol o dechnoleg gwybodaeth, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter. Y fantais yw mwy o gyfleon i fynegi eu safbwynt eu hunain ac ymateb i'r heriau mae mudiadau'n eu hwynebu o ran dylanwadu ar y cyfryngau torfol.

Mae technoleg yn hwyluso gwaith mudiadau cymdeithasol mewn ffyrdd eraill hefyd. Mae'r lleihad yng nghost cyfarpar technolegol wedi gwneud costau trefnu mudiad yn is. Gall hwyluso prosesau fel storio cysylltiadau ystod o gefnogwyr, codi arian arlein i'r mudiad, rhannu gwybodaeth, trefnu digwyddiadau a datblygu rhwydweithiau newydd yn rhwydd ac yn rhad. Gellir trefnu ymgyrchoedd bychain drwy systemau fel e-ddeisebau. Yn yr un modd, mae'r cyfryngau yn hwyluso cysylltiadau gyda mudiadau'n fyd-eang ac yn golygu ei bod hi'n anoddach i wladwriaethau reoli a chyfyngu ar gyfathrebu o'r fath.

Er bod cyfryngau digidol yn amlwg yn chwarae rhan bwysig mewn mudiadau cyfoes, codir rhai cwestiynau am natur cyfranogaeth. Gall cymunedau gwe yn gyffredinol fod yn fwy llac a rhithiol. O ran yr unigolyn, gall gweithredu ar-lein fod yn fwy unigolyddol nag ymwneud wyneb yn wyneb o fewn mudiad. Mae'r nodweddion hyn yn golygu y gall technoleg ledaenu cefnogaeth i fudiad yn gyflym ond gall natur y gefnogaeth fod yn llai gwydn a chilio yn fwy cyflym.

Yn ei gyfanrwydd, er pwysigrwydd technoleg i fudiadau, mae dylanwadu ar y cyfryngau torfol yn parhau yn hollbwysig.

**CYFLEOEDD A CHYFYNGIADAU TECHNOLEG**

'Computer-mediated communications lower costs of recruitment, organization, and mobilization in numerous ways. They provide virtually free publicity… facilitate coordinated activity… minimize intrinsic challenges of organizational maintenance over time…develop or extend collective identities beyond face-to-face networks…. Glowing accounts of the Internet's potential also need to be tempered with reminders that it remains… a space subject to commodification and corporatization…' (Buechler, 2011: 221)

O Buechler, S. M. (2011). *Understanding Social Movements: Theories from the Classical Era to the Present* (Llundain: Routledge)

## Pwy mae'r mudiadau'n ei dargedu, a beth yw eu hamcan?

Mae mudiadau cymdeithasol yn ymwneud gyda llawer o grwpiau a sefydliadau dylanwadol a'u hamcanion a'u tactegau yn gallu amrywio wrth ymwneud gyda'r cyrff hyn.

| CORFF TARGED | AMCAN MUDIAD |
|---|---|
| **Cyrff sy'n llywodraethu** | Ceisio dylanwadu ar lywodraethau a phleidiau er mwyn newid cyfreithiau, polisïau, trefniadau gweinyddol ac osgoi cael eu gormesu. |
| **Cyfryngau** | Defnyddio'r cyfryngau er mwyn rhannnu eu neges ymysg nifer fawr o bobl;<br>Dylanwadu ar benderfyniadau'r wladwriaeth, weithiau i danseilio eu gwrthwynebwyr drwy ddangos ochr llai ffafriol. |
| **Grwpiau proffesiynol**<br>**(e.e. doctoriaid neu beiriannwyr)** | Ceisio dylanwadu ar eu harferion a'u codau ymarfer gan weithiau weithredu o'r tu fewn i'r mudiadau hyn hefyd, nid yn unig o'r tu allan. |
| **Mudiadau eraill** | Ceisio cynghreirio dros faterion cyffredin i gryfhau a chynyddu effeithiolrwydd yr ymgyrchu, er enghraifft drwy sefydlu 'cynghreiriau enfys'. |
| **Y cyhoedd** | Ceisio ennyn cydymdeimlad a chefnogaeth i'r achos, cyfraniadau, newid mewn ymwybyddiaeth ac agweddau. |
| **Gwrthwynebwyr** | Ceisio newid ymddygiad drwy berswadio, neu godi braw neu drwy orfodi costau arnynt;<br>Tanseilio hygrededd eu gwrthwynebwyr yn llygad y cyhoedd, y cyfryngau a'r cyrff sy'n llywodraethu |
| **Aelodau'r Mudiad** | Trawsnewidiad eu haelodau a pharhau i sicrhau eu teyrngarwch i'r achos. |
| **Llysoedd** | Ceisio cael gwared â chyfreithiau anffafriol |
| **Heddlu a llysoedd** | Chwilio am oddefgarwch tuag at eu protestiadau |

## Pa mor effeithiol yw mudiadau cymdeithasol?

Mae cryfder neu ddylanwad mudiadau cymdeithasol yn dipyn anoddach i'w fesur nag er enghraifft llwyddiant plaid wleidyddol a ellir ei fesur drwy berfformiad etholiadol.

Y cwestiwn mawr yw sut mae deall beth yw bod yn fudiad effeithiol neu lwyddiannus. Ymhlith yr ystyriaethau mae:

: Er y gall 'llwyddiant' mudiadau gynnwys gwireddu amcanion polisi clir (e.e. deddfau), yn amlach na pheidio nid yw'r berthynas rhwng gweithgarwch mudiad a'i effaith mor eglur. Rheswm amlwg yw taw amcan canolog mudiadau yw newid agweddau diwylliannol, hynny yw newid agweddau elîts a dinasyddion cyffredin.

: Yn gysylltiedig, mae tuedd i ganolbwyntio ar effeithiau gwleidyddol a pholisi mudiadau yn hytrach na'u heffeithiau diwylliannol a sefydliadol sy'n anoddach i'w hasesu.

: Mae rhai'n dadlau y bydd mudiadau cymdeithasol yn diflannu unwaith iddynt fod yn llwyddiannus, hynny yw pan fo eu galwadau wedi eu hintegreiddio i'r system wleidyddol. O'r berspectif hwn, llwyddiant yw integreiddio materion oedd gynt wedi eu heithrio i mewn i'r brif broses wleidyddol. I eraill, byddai integreiddio galwadau mudiadau cymdeithasol yn gyfystyr â methiant i rai o'r ymgyrchwyr eu hunain. Felly, mae union ystyr 'llwyddiant' yn ddadleuol.

: Gall effaith gweithgarwch mudiadau cymdeithasol arwain at nifer o wahanol fathau o allbynnau – bwriadol ac anfwriadol, hir dymor a byr dymor. Ymhellach, anodd iawn hefyd yw asesu beth yw'r cyswllt uniongyrchol rhwng gweithgaredd mudiad ac effaith ffactorau eraill fel newidiadau economaidd-gymdeithasol sylweddol.

**DULLIAU DYLANWADU AC EFFEITHIOLRWYDD Y MUDIADAU**

'By uniting, however loosely, a broad range of groups and individuals, and taking action, social movements can influence public policy... Newspaper stories about a demonstration pique political, journalistic and public interest... By bringing scrutiny to a contested policy, activists can promote alternative thinking… In these ways activists shape events – even if they do not necessarily get credit for their efforts or achieve everything they want.' (Meyer, 2015: 388)

Meyer, D. S. (2015). 'How Social Movements Matter' yn J. Goodwin a J. M. Jasper (goln) *The Social Movements Reader: Cases and Concepts* (Chichester: Wiley Blackwell)

## Astudiaeth Achos: Pa mor effeithiol oedd Mudiad Hawliau Sifil UDA?

Gellir dehongli gwahanol effeithiau'r mudiad:

: Cyfrannodd tuag at sicrhau pasio ddeddfau i roi hawliau i bobl dduon, Deddf Hawliau Sifil 1964 a'r Ddeddf Hawliau Pleidleisio 1965;

: Un o brif ganlyniadau'r mudiad oedd arwain at ethol yn ddemocrataidd nifer o Americanwyr Affricanaidd;

: Darparodd y sail drefniadaethol, ffyrdd o ddylanwadu sefydliadol, tactegau a ffurfiau o weithredu ar y cyd i fudiad fel 'Black Power' (1965-75) oedd yn fwy radical;

: Fe ddylanwadodd yn ehangach hefyd wrth i'r mudiad hyrwyddo syniad bydeang o hawliau dynol ac wrth gymell gweithredu ymysg myfyrwyr oedd yn ganolog i fudiadau rhyngwladol yr 1960au.